

» Mae Cymru oll mewn cyfnod o gyfyngiadau symud (lefel rhybudd 4). **Beth sydd angen ichi wneud ar lefel rhybudd 4.**

Hafan > Hysbysiadau > Holl hysbysiadau >

Datganiad Ysgrifenedig: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddefnyddio gorchuddion wyneb mewn ysgolion a cholegau

DATGANIAD CABINET

Datganiad Ysgrifenedig: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddefnyddio gorchuddion wyneb mewn ysgolion a cholegau

Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg

Cyhoeddwyd gyntaf: 23 Tachwedd 2020

Diweddarwyd ddiwethaf: 23 Tachwedd 2020

Mae'n hanfodol bod pobl ifanc, rhieni a'r gweithlu yn teimlo'n hyderus bod yr holl fesurau'n cael eu cymryd i sicrhau bod amgylchedd yr ysgol mor ddiogel â phosibl.

Rhannu'r dudalen hon:   

Mae Llywodraeth Cymru wedi diweddarau ei chanllawiau gweithredol ar ddefnyddio gorchuddion wyneb mewn ysgolion a cholegau. Mae'r symudiad yn dilyn cyhoeddi tystiolaeth SAGE **ac adroddiad TAG diweddar**.

Rydym wedi bod yn glir y byddwn yn parhau i adolygu pob polisi a byddwn yn parhau i ddilyn cyngor gwyddonol.

Mae'r canllawiau newydd yn syml i'w dilyn, yn haws eu gweinyddu ac yn sicrhau bod polisi cyson ledled Cymru.

Mae'r canllawiau bellach yn nodi y dylai gorchuddion wyneb cael eu gwisgo:

- ym mhobman y tu allan i'r ystafell ddosbarth gan staff a dysgwyr mewn ysgolion uwchradd a cholegau
- ar gludiant penodedig i'r ysgol a choleg ar gyfer blwyddyn 7 ac i fyny
- gan ymwelwyr ag ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a cholegau, gan gynnwys rhieni a gofalwyr yn casglu a chasglu plant

Cadw pellter cymdeithasol a golchi dwylo yw'r mesurau pwysicaf y mae'n rhaid i bawb yng Nghymru barhau i'w cymryd. Gall gwisgo gorchuddion wyneb ategu'r mesurau hyn, gan sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gadw ein hunain ac eraill yn ddiogel.

Rydym eisoes wedi cyhoeddi cyllid o £2.3m i gefnogi prynu gorchuddion wyneb mewn ysgolion uwchradd a cholegau.

Mae gan bawb yng Nghymru ran bwysig i'w chwarae wrth helpu i atal lledaeniad coronafeirws a chadw ei gilydd yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys aros allan o gartrefi ein gilydd, ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn, cyfyngu ar faint o wahanol bobl rydym yn eu cyfarfod, cadw pellter cymdeithasol a golchi dwylo'n rheolaidd.

Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i helpu i atgyfnerthu'r negeseuon i ddisgyblion, rhieni a staff ar bwysigrwydd cymryd cyfrifoldeb i helpu i achub bywydau a diogelu ein GIG.

<https://llyw.cymru/canllawiau-gweithredol-ar-gyfer-ysgolion-lleoliadau-o-dymor-yr-hydref-covid-19>

Cyhoeddwyd gyntaf

23 Tachwedd 2020

Diweddarwyd ddiwethaf

23 Tachwedd 2020

[Adrodd am unrhyw beth sy'n bod gyda'r dudalen hon](#)

 Rhannu'r dudalen hon

 Nôl i dop y dudalen